# Profion Histogydnawsedd

Profi addasrwydd trallwysiadau platennau – gwybodaeth i gleifion

## Beth yw profion histogydnawsedd?

**Mae profion histogydnawsedd yn helpu i benderfynu os gallwn ddod o hyd i roddwr addas i ddarparu platennau penodol i gleifion sydd ddim yn ymateb yn dda i drallwysiadau platennau penodol (naill ai drwy beidio ymateb yn ddigonol, neu am eu bod yn ymateb mewn ffordd anarferol i’r trallwysiad), i gleifion sydd yn dioddef anhwylder i swyddogaeth platennau, neu mewn rhai achosion, er mwyn helpu i atal ymateb gwael rhag datblygu.**

Mae'r rhan fwyaf o drallwysiadau platennau yn defnyddio platennau o’r stociau yn y banc gwaed, ac yn y rhan fwyaf o achosion, mae’r rhain yn gweithio'n dda. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, mae corff y claf yn dinistrio'r platennau sy'n cael eu trallwyso. Mae sawl rheswm pam y gall hyn ddigwydd. Un o'r rhesymau posibl yw bod gan y claf wrthgyrff yn ei waed sy'n adweithio gydag ALDau (antigenau lewcoseid dynol) neu APDau (antigenau platennau dynol).

Rydych yn etifeddu eich grŵp ALDau (a elwir hefyd yn deipfeinwe), a’ch grŵp APDau gan eich rhieni. Gellir gweld ALDau ar arwyneb y rhan fwyaf o gelloedd yn y corff. Gellir gweld APDau ar arwyneb platennau hefyd. Mae llawer o fathau gwahanol o ALDau ac felly, mae'r rhan fwyaf o bobl yn wahanol i'w gilydd. Oherwydd hyn, mae'n debygol y bydd llawer o’r platennau y byddwch fel arfer yn eu derbyn yn dod o roddwyr sydd â grŵp ALDau sy’n wahanol i'ch un chi. Gall hyn fod yn broblem os ydych yn cynhyrchu gwrthgyrff ALDau yn eich gwaed. Mae gwrthgyrff ALDau yn cael eu creu gan system imiwnedd eich corff, ac maen nhw’n gallu dinistrio’r platennau a roddir i chi drwy’r trallwysiad. Efallai y byddwch yn cynhyrchu gwrthgyrff ALDau os ydych wedi cael trallwysiad gwaed yn y gorffennol, neu os ydych wedi bod yn feichiog.

Efallai y bydd angen i ni gynnal prawf histogydnawsedd os na fyddwch yn ymateb yn dda i drallwysiadau platennau penodol. Os byddwch yn ymateb yn wael i drallwysiad platennau, byddwn yn rhoi eich sampl gwaed i'r labordy Histogydnawsedd ac Imiwnogeneteg (H+I), i weld os mai dyma’r rheswm pam nad ydych yn ymateb yn dda i drallwysiad platennau safonol.

Bydd y labordy yn gwneud dau brawf i ddechrau – prawf i ddarganfod grŵp yr ALDau, a phrawf i weld os ydych yn cynhyrchu gwrthgyrff ALDau. Yn achos rhai cleifion, bydd angen darganfod grŵp yr APDau, a gwneud prawf  i weld os ydych yn cynhyrchu gwrthgyrff APDau.

## Grŵp ALDau ac APDau

Byddwn yn dod o hyd i grŵp eich ALDau drwy brofi sampl o'ch DNA o’ch celloedd gwaed. Bydd y labordy yn storio sampl o'ch DNA, rhag ofn y bydd angen cynnal mwy o brofion yn y dyfodol. Mewn rhai achosion, bydd y labordy hefyd yn defnyddio’r sampl o’ch DNA i ddod o hyd i‘ch grŵp APDau.

Byddwn yn rhoi’r canlyniadau i'ch haematolegydd ymgynghorol. Efallai y byddwn yn anfon copïau o'ch canlyniadau at staff gofal iechyd eraill sy'n eich trin chi (er enghraifft, nyrsys arbenigol), ac i unrhyw ysbytai eraill y gellid eich  trosglwyddo iddynt yn y dyfodol. Bydd y labordy H + I hefyd yn cadw copïau o'r canlyniadau.

## Prawf i weld os ydych yn cynhyrchu gwrthgyrff ALDau ac APDau

Mae angen sampl gwaed ar wahân arnom i brofi am wrthgyrff ALDau. Gall gwrthgyrff ALDau ymddangos, diflannu ac ailymddangos dros amser, felly efallai y bydd angen i chi ddarparu mwy o samplau os oes angen trallwysiadau platennau rheolaidd arnoch dros gyfnod hir o amser. Byddwn yn defnyddio'r samplau hyn i wirio a oes unrhyw wrthgyrff wedi cael eu cynhyrchu yn eich gwaed.

Mae'n bosibl y bydd rhai cleifion yn cynhyrchu gwrthgyrff APDau yn ogystal â gwrthgyrff ALDau, neu yn eu lle. O dan yr amgylchiadau hyn, mae'n bosibl y bydd y cleifion yn ymateb yn wael i drallwysiadau platennau ALD-benodol (gweler isod) o ganlyniad i'r gwrthgyrff APDau, sydd i'w canfod ar blatennau.

Byddwn yn rhoi'r canlyniadau i'ch meddyg ymgynghorol, a fydd yn gweithio gyda ni i benderfynu a oes angen platennau sydd wedi'u dethol yn arbennig arnoch.

## Platennau ALD-benodol

Os yw canlyniadau eich profion yn dangos eich bod yn cynhyrchu gwrthgyrff ALDau, efallai y bydd angen platennau ALD-benodol arnoch. Os felly, bydd ein staff H + I yn defnyddio canlyniadau eich grŵp ALDau a'ch prawf gwrthgyrff i ddewis platennau gan roddwyr gwaed sydd â grŵp ALDau sy'n addas i chi. Bydd hyn yn golygu na ddylai'r gwrthgyrff ALDau sydd yn cael eu cynhyrchu gennych adweithio gyda'r platennau sydd wedi'u dethol yn arbennig. Yn y rhan fwyaf o achosion, dylai eich ymateb i drallwysiadau platennau wella. Mewn achosion prin, efallai na fydd hyn yn digwydd, ac efallai y bydd angen rhagor o brofion arnoch i weld a oes rhywbeth arall yn effeithio ar  y trallwysiadau hyn. Oherwydd y cymhlethdod wrth ddewis platennau, efallai y bydd dod o hyd i roddwyr addas yn anodd weithiau.

## Platennau APD-benodol

Os yw canlyniadau'r profion gwrthgyrff APDau a'r grŵp APDau yn dangos pam nad ydych yn ymateb i blatennau ALD-benodol, efallai y bydd angen platennau APD-benodol arnoch. Mewn rhai achosion, efallai y bydd angen i chi gael platennau ALD-benodol a phlatennau APD-benodol, fydd ddim yn cael eu heffeithio gan y gwrthgyrff ALDau ac APDau yn eich gwaed. O ganlyniad, dylai eich ymateb i drallwysiadau platennau wella.

## Effeithiolrwydd trallwysiadau platennau

Mae angen i ni wybod y lefel ymateb (cynnydd), er mwyn darparu'r platennau sy'n cydweddu orau â chi, ac atal unrhyw drallwysiadau diangen. Mae'r cynnydd yn cael ei fesur o samplau gwaed a gymerir cyn y trallwysiad, ac awr ar ei ôl. Mae'n bwysig bod y samplau hyn yn cael eu cymryd, fel y gall eich meddyg ymgynghorol benderfynu ar eich triniaeth trallwysiad.

## Beth sydd yn digwydd i fy sampl?

Pan na fydd angen eich samplau ar gyfer profion arnom mwyach, neu os bydd gennym fwy o samplau na'r hyn sydd eu hangen arnom, mae'r gyfraith yn caniatáu i ni ddefnyddio'r rhain yn ddienw at ddibenion rheoli ansawdd (gwneud yn siŵr bod ein profion yn gweithio'n gywir), gwaith ymchwil (yn dibynnu os yw hyn wedi'i gymeradwyo gan bwyllgor moeseg â'i peidio), cyflwyno gweithdrefnau newydd, neu at ddiben addysgu a hyfforddi meddygon, nyrsys, gwyddonwyr a gweithwyr proffesiynol eraill sy'n gweithio ym maes gofal iechyd. Mae hyn yn ein helpu i gynnal gweithdrefnau profi cywir a gwella ein gwybodaeth ac felly, darparu'r gofal gorau posibl i'n holl gleifion.

Fodd bynnag, os nad ydych eisiau i ni ddefnyddio eich samplau ar gyfer unrhyw un o'r dibenion uchod, rhaid i chi ddweud wrth eich meddyg neu'r unigolyn sy'n cymryd eich gwaed (neu'r ddau). Byddwn yn parchu eich dymuniadau, a chael gwared ar unrhyw samplau nad oes eu hangen arnom mwyach.

**I gael copïau ychwanegol o'r daflen hon ynghyd ag unrhyw wybodaeth bellach, ffoniwch Gwasanaeth Gwaed Cymru ar 01443 622126.**

Hoffem ddiolch i wasanaeth Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG am gynnwys gwreiddiol y daflen hon.

**Gwasanaeth Gwaed Cymru**
**0800 252266**
**gwaed-cymru.org.uk**

**Diogelu data**
Mae Gwasanaeth Gwaed Cymru yn cadw cofnod o'r holl brofion mae'n eu perfformio ac unrhyw gyngor mae'n ei gynnig i'ch tîm gofal iechyd, i redeg ei wasanaeth yn effeithlon ac yn ddiogel. Bydd eich data'n cael ei gadw'n ddiogel, ac yn unol â'ch hawliau dan y ddeddfwriaeth diogelu data.

GGC Cyf: 126E Fersiwn 1.1 05/18

GIG CYMRU NHS WALES
Ymddiriedolaeth GIG Felindre
Velindre NHS Trust